Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Trais yn Erbyn Menywod a Merched

## Crynodeb adolygiad o ymdrin ag achosion o ben i ben

**Chwefror 2024**

# Cyflwyniad

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn bryder i blismona a system gwynion yr heddlu. Mae achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr yn parhau i adrodd y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r heddlu. Mae achosion proffil uchel sy'n peri gofid fel llofruddiaeth Sarah Everard a gweithredoedd swyddogion heddlu yn ymchwilio i lofruddiaethau Bibaa Henry a Nicole Smallman wedi arwain at bryder cyhoeddus cynyddol am ymateb yr heddlu yn y maes hwn. Mae hyn wedi niweidio hyder y cyhoedd mewn plismona ac wedi codi cwestiynau am yr agweddau diwylliannol tuag at fenywod a merched mewn plismona yn gyffredinol.

Fel rhan o'n gwaith ar drais yn erbyn menywod a merched, fe wnaethom weithio gydag wyth llu heddlu i adolygu detholiad o ffeiliau cwynion ac ymddygiadau. Fe wnaethom archwilio 121 o ffeiliau i adolygu sut y gwnaethant ymdrin â materion cwynion ac ymddygiadau lle roedd trais yn erbyn menywod a merched yn ffactor ac a oedd eu hymatebion yn briodol, cymesur ac yn unol â chyfraith a chanllawiau perthnasol. Rydym yn cydnabod bod adolygiadau ac ymchwiliadau eraill wedi bod i ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched. Fodd bynnag, roedd ein cwmpas ychydig yn wahanol ac rydym wedi canolbwyntio ar ein cylch gorchwyl a'n pwerau i gymhwyso *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.* Rydym yn rhannu'r canfyddiadau hyn er mwyn i bob llu heddlu yng Nghymru a Lloegr allu cynnal sgyrsiau am eu safonau a'u diwylliant eu hunain mewn ymateb i drais yn erbyn menywod a merched.

Dangosodd yr wyth llu a weithiodd gyda ni o ran proses, mae llawer o feysydd lle maen nhw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, oedd yn galonogol i'w weld. Rydym yn gwybod trwy graffu cynyddol ar ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched, mae adrannau safonau proffesiynol (yr adrannau sy'n ymdrin â materion cwynion ac ymddygiadau heddlu) wedi cyflwyno cynlluniau newydd i wella plismona. Mae hyn yn cynnwys gweithgaredd/gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r broses gwynion, darparu hyfforddiant gwell i staff a mabwysiadu prosesau newydd i ymateb i faterion cwynion ac ymddygiadau.  Gall ein canfyddiadau adlewyrchu'r ffocws newydd hwn.

Fodd bynnag, mae'n canfyddiadau hefyd yn dangos hyd yn oed pan fydd y rhan fwyaf o brosesau yn cael eu dilyn yn gywir neu'n mynd yn dda, mae'r rheini sydd ddim, yn cael effaith ddinistriol ar y bobl  a effeithir. Rydym wedi adnabod ymarfer da, ond rydym hefyd wedi adnabod meysydd lle mae pethau wedi mynd o'u lle.

Mae'n hargymhellion yn cwmpasu pum maes a gafodd eu hadnabod fel rhan o'r adolygiad.  Eu bwriad yw cynghori ar sut i wella'r hygyrchedd, i ddioddefwyr-oroeswyr ac achwynwyr wrth ddefnyddio'r system gwynion mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched; yr ymagweddau at fregusrwydd dioddefwyr-oroeswyr a materion diogelu; y defnydd o iaith a'r gydnabyddiaeth o sensitifrwydd yn ei chylch; penderfyniadau, asesiadau a chanlyniadau ac ymdrin rhesymol a chymesur â chwynion.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhannu ein canfyddiadau o adolygiad i mewn i 121 achos (77 cwyn a 44 mater ymddygiad).

# Hygyrchedd

Fe wnaethom archwilio pa mor hygyrch mae system gwynion yr heddlu i ddioddefwyr-oroeswyr ac achwynwyr o drais yn erbyn menywod a merched (VAWG). Fe wnaethom edrych ar a yw gwybodaeth addas am y system gwynion ar gael i achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr a gofyn i luoedd pa fecanweithiau neu gynlluniau sydd ganddynt i helpu dioddefwyr neu dystion o'r heddlu i adrodd am drais yn erbyn menywod a merched wedi'i gyflawni gan heddlu. Roedd enghreifftiau a ddarparwyd gan yr heddluoedd yn cynnwys:

- Swyddog atal dynodedig sy'n ymgysylltu ag asiantaethau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth am y system gwynion.
- Porth cyhoeddus o'r enw Safecall ar gyfer y cyhoedd i adrodd am gamdriniaeth a achoswyd gan heddlu yn ddienw trwy barti annibynnol.
- Cynhadledd VAWG i godi ymwybyddiaeth o faterion perthynol i VAWG, ffyrdd i adrodd amdanynt, a rôl system gwynion yr heddlu.
- Dyrannu achosion i swyddogion profiadol, arbenigol ag arbenigedd mewn materion VAWG.
- Diweddaru'r porth ar-lein lle mae'r cyhoedd yn cyflwyno cwynion i'w wneud yn haws ac yn fwy hygyrch.
- "Sgyrsiau dewr am VAWG" lle gwahoddir staff a swyddogion heddlu i drafod eu profiadau o VAWG.
- Trin honiadau o gamdriniaeth yn y cartref wedi'i achosi gan heddlu fel ymchwiliadau blaenoriaeth.
- "Cylchoedd gwrando" wedi'u rhedeg gan Arweinydd Strategol VAWG, ochr yn ochr â chynrychiolydd o Gymdeithas Menywod mewn Plismona.

# Bregusrwydd a diogelu

Oherwydd natur materion cwynion ac ymddygiadau sy'n cynnwys ffactor trais yn erbyn menywod a merched, rydym yn disgwyl y bydd achwynwyr dioddefwyr-oroeswyr yn agored i niwed yn aml neu gall fod angen rhyw ffurf o gymorth arnynt. Fel rhan o'n hadolygiad, fe wnaethom chwilio am dystiolaeth bod gofal a diogelwch achwynydd / dioddefwr-oroeswr yn cael ystyriaeth ddyledus, bod penderfyniadau eglur yn cael eu gwneud ar gyfer pwy sy'n gyfrifol am eu llesiant, a bod cyfeirio neu atgyfeiriadau at asiantaethau cymorth yn digwydd lle bo angen.

Ni chawsom ein darbwyllo bod gofal a diogelwch achwynwyr/dioddefwyr-oroeswyr yn cael digon o ystyriaeth bob amser.

Fe wnaethom ganfod 14 achos lle dylai'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr fod wedi cael ei hystyried yn agored i niwed ond ni chafodd.

O'r achosion yr ymdriniwyd a nhw yn ffurfiol (88 achos), fe wnaethom ganfod nad oedd dros hanner (61%) o achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr yn cael eu hystyried yn agored i niwed.

Nid oedd y ffeiliau achos yn cynnwys manylion bob amser am a gafodd bregusrwydd yr achwynydd / dioddefwr-oroeswr ei asesu ac nid oedd yn eglur bob amser pwy oedd yn gyfrifol am eu gofal.

Fe wnaethom ganfod enghreifftiau cadarnhaol o ddioddefwyr o'r heddlu yn cael cynnig gwasanaethau cymorth a mesurau diogelu gweithle i'w hatal rhag gorfod gweithio gyda neu'n agos at y cyflawnwr, ond nid ym mhob achos a samplwyd gennym.

Mae gan rai lluoedd berthnasoedd da ag elusennau neu sefydliadau cymorth lleol, ac mewn rhai achosion, mae'r heddlu yn cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am ofal dioddefwyr.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd cyfrifoldeb amlwg dros ofal dioddefwyr. Gallem ddisgwyl i'r ymdriniwr â'r gŵyn fod wedi cael sgyrsiau â'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr am ei anghenion ac i'w gyfeirio at asiantaethau cymorth, lle'n berthnasol. Rydym yn disgwyl y rhoddir ystyriaeth ddyledus i ofal a llesiant achwynydd / dioddefwr-oroeswr a bod heddluoedd yn ymwybodol o ddarpariaethau lleol, felly gallant gyfeirio neu atgyfeirio pobl at y gwasanaethau hynny.

# Iaith

Fe wnaethom adolygu'r iaith a ddefnyddiwyd gan ymdrinwyr â chwynion wrth gyfathrebu ag achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr i sefydlu a oedd y cysylltiad yn sensitif ac a oedd unrhyw dystiolaeth o iaith yn beio'r dioddefwr. Mae cyfathrebu mewn ffordd sy'n rhydd rhag beio dioddefwyr yn gwella hyder dioddefwyr-oroeswyr yn y broses ac mae'n osgoi erlid ychwanegol.

Fe wnaethom ganfod y cafodd iaith briodol a sensitif ei defnyddio yn y rhan fwyaf o achosion y gwnaethom eu hadolygu. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o iaith amhriodol a / neu'n beio dioddefwyr yn bresennol.

***"aelod llai profiadol, iau a mwy diniwed o'r adran...yn gweithio ar sifft o gydweithwyr â pherthnasoedd gwaith sefydlog sydd wedi arfer â thynnu coes a diwylliant y swyddfa sy'n boboli"***

Yn yr enghraifft hon, nid yw oedran a diffyg profiad dioddefwr o'r heddlu yn berthnasol ac ni ddylid cyfeirio ato fel ffordd i symud y bai i'r dioddefwr-oroeswr. Amlygodd yr enghraifft hon hefyd sut mae diwylliannau, agwedd a thynnu coes tîm amhriodol yn cael ei weld weithiau yn annerbyniol a disgwyliedig.

Roedd enghreifftiau eraill o iaith amhriodol yn cynnwys:

**“Daethon nhw'n agos”** wrth gyfeirio at adroddiad am ymosodiad rhywiol sy'n awgrymu cydsyniad.

**‘Roedd hi'n ymddangos yn awyddus iawn’** wrth drafod delwedau CCTV â chyflawnwr heddlu yn ystod cyfweliad.

# Penderfyniadau asesiadau a chanlyniadau

Fe wnaethom edrych ar a oedd y penderfynu cychwynnol, dulliau ymdrin, a chanlyniadau materion cwynion ac ymddygiadau VAWG yn briodol ac yn unol â'r gyfraith.

**Cysylltiad cynnar**

- Mae lluoedd yn gwneud neu'n ceisio gwneud cysylltiad cynnar ag achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr yn y rhan fwyaf o achosion.
- Gwnaeth cadw cofnodion cyfyngedig hi'n anodd i sefydlu ansawdd eu cysylltu a'u hymgysylltu.

**Penderfyniadau cychwyn**

- Cyfeiriodd lluoedd yr achosion priodol yn gywir at SAYH. O'r achosion na chafodd eu hatgyfeirio, fe wnaethom anghytuno ag un.
- Dewisodd lluoedd ddull ymdrin priodol yn y rhan fwyaf o achosion. Fe wnaethom anghytuno â'r dull ymdrin mewn wyth achos.
- Dibynnodd lluoedd ar ymdrinwyr â chwynion yn tynnu sylw at wrthdrawiadau diddordeb ac roeddent yn brin o weithdrefnau safonol i wirio am ddatganiadau.

**Asesiad**

- At ei gilydd, cafodd ymddygiad oddi ar ddyletswydd ei asesu â'r un lefel o ddifrifoldeb ag ymddygiad a ddigwyddodd ar ddyletswydd.
- Ni chafodd patrymau ymddygiad eu hystyried bob amser lle gallai fod yn berthnasol i wneud hynny. Er enghraifft, lle mae gweithiwr heddlu wedi ymddwyn mewn ffordd debyg o'r blaen neu lle gallai patrwm fod yn codi.
- Cafodd materion ymddygiad (lle nad oes cwyn) eu trin mwy o ddifrif yn gyffredinol na chwynion.

**Canlyniadau**

- Rydym yn fodlon fod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wnaed ar ddiwedd yr ymdriniaeth yn briodol mewn achosion cwynion ac ymddygiadau.
- Mewn achosion yr ymdriniwyd â nhw'n ffurfiol, roedd tri chwarter yr adroddiadau canlyniadau yn gywir ac yn mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd.
- Roedd rhai achosion yn cynnwys gwybodaeth annigonol i ni bennu a gafodd y canlyniad ei gyfathrebu'n briodol i'r achwynydd neu'r dioddefwr-oroeswr
- Mewn achosion ymddygiad, ni chafodd y dioddefwr-oroeswr na'r unigolyn â diddordeb eu diweddaru fel mater o drefn ar ganlyniad yr ymchwiliad.


# Ymdrin rhesymol a chymesur

Mae dulliau ymdrin gwahanol ar gael i luoedd gan ddibynnu ar y math o achos, difrifoldeb y mater, ac roedd angen i lefel yr ymholiadau fynd i'r afael â'r pryderon. Gall cwynion gael eu trin yn anffurfiol os gellir mynd i'r afael â nhw yn gyflym a heb ymholiadau manwl. Er enghraifft, darparu esboniad neu ddiweddariad. Gall materion ymddygiad a chwynion sydd ddim yn addas ar gyfer ymdrin anffurfiol naill ai gael eu hymchwilio neu eu trin 'mewn ffordd arall heblaw am ymchwiliad (OTBI). Dyma ddull ymdrin hyblyg a gynlluniwyd i ddarparu atebion ystyrlon a chywiro anfodlonrwydd heb ymchwiliad llawn. Mae ymchwiliadau ac OTBI yn fathau o ymdrin ffurfiol. Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu bod rhaid i faterion penodol gael eu trin yn ffurfiol yn seiliedig ar natur mater y gŵyn neu ymddygiad.




**Ymdrin anffurfiol**

Cafodd **86%** (24 allan o 28) o'r achosion y deliwyd â nhw yn anffurfiol eu trin yn rhesymol ac yn gymesur. Dylai'r pedwar achos sy'n weddill fod wedi cael eu trin yn ffurfiol yn seiliedig ar ddifrifoldeb y gŵyn a'r gweithredoedd oedd yn ofynnol i'w datrys.




**Ymdrin ffurfiol: OTBI**

Cafodd **81%** (34 allan o 42) o'r achosion a driniodd OTBI eu trin yn rhesymol a chymesur. Lle nad oeddent, roedd oherwydd achosion yn cael eu rhuthro i ganlyniad, ymholiadau perthnasol yn cael eu methu, a methu ag adolygu tystiolaeth yn ddiduedd. Fe wnaethom ganfod pedwar achos a ddylai fod wedi cael eu hymchwilio yn seiliedig ar ddifrifoldeb y gŵyn.




**Ymdrin ffurfiol - ymchwiliad**

Cafodd **86%** (44 allan o 51) o ymchwiliadau eu hystyried yn rhesymol a chymesur, roedd hyn yn cynnwys dilyn ymholiadau addas a chael tystiolaeth berthnasol. Mewn dau achos, cafodd rhai ymholiadau perthnasol eu methu, ac roedd pump achos yn cynnwys gwybodaeth annigonol er mwyn i ni wneud penderfyniad.

Ie   Na   Methu â phenderfynu

# Argymhellion

O ganlyniad i'n hadolygiad o ffeiliau achos, mae SAYH wedi gwneud naw argymhelliad wedi'u hanelu at wella'r ymdriniaeth o gwynion yn cynnwys trais yn erbyn menywod a merched, ac ymdrin â chwynion yn gyffredinol. Rydym yn anelu at adeiladu ymddiriedaeth a hyder i adrodd am faterion cwynion ac ymddygiadau yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, a chynorthwyo ymateb yr heddlu i'r materion hynny mewn ffordd sy'n gadarn ac wedi'i chanolbwyntio ar y dioddefwr.

| Argymhelliad | Manylion |
|---|---|
| 1 | Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) yn darparu canllawiau i'r holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ar ddiffiniad a chymhwysiad cywir ffactorau Centurion cenedlaethol trais yn erbyn menywod a merched. |
| 2 | Bydd SYAH yn cychwyn prosiect ar wahân yn canolbwyntio ar sut mae heddluoedd yn ymateb i adroddiadau am gamdriniaeth yn y cartref (PPDA) a gyflawnir gan heddlu. Bydd hyn yn cynnwys sut mae adroddiadau am PPDA yn cael eu hadnabod a'u cofnodi, yr holl ffordd i sut mae materion cwynion ac ymddygiadau yn cael eu trin. Bydd y gwaith yn adeiladu ar yr hyn rydym yn ei wybod o'r adroddiad uwch-gwynion CWJ a bydd yn canolbwyntio ar adnabod datrysiadau i wella'r ymateb plismona i PPDA. |
| 3 | Dylai heddluoedd weithio gyda grwpiau cymorth lleol, elusennau a sefydliadau i ffurfio partneriaethau i ddarparu cymorth priodol. Dylai fod gan Ymdrinwyr â chwynion wybodaeth ac adnoddau ar gael iddynt, er mwyn iddynt wybod beth yw'r partneriaethau hynny. |
| 4 | Lle codir cwyn neu fater ymddygiad yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, dylai ymdrinwyr â chwynion ystyried y gwendidau posibl yn gysylltiedig a bod yn ddioddefwr-oroeswr neu achwynydd o fater trais yn erbyn menywod a merched. Dylai ymdrinwyr â chwynion ystyried pa gymorth allai fod yn ofynnol a thrafod yr opsiynau â'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr. Dylai cyfrifoldeb am eu gofal gael ei ddogfennu ar y ffeil. |
| 5 | Dylai heddluoedd gynnwys cofnodion gwrthdrawiad diddordeb fel y safon ar bob achos yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, i ddangos eu bod wedi ystyried unrhyw wrthdrawiadau posibl ac i roi sicrwydd i achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr o addasrwydd yr ymdriniwr â'r gŵyn a benodwyd. |
| 6 | Dylai heddluoedd wneud gwelliannau i gadw cofnodion ar gyfer cwynion yr ymdriniwyd â nhw'n anffurfiol a chymhwyso rhai safonau sylfaenol. Dylai systemau heddlu gofnodi digon o wybodaeth i allu dangos pa gamau sydd wedi cael eu cymryd a pha wybodaeth a gafodd ei rhoi i'r achwynydd / dioddefwr- |

| Argymhelliad | Manylion |
| --- | --- |
| | oroeswr. Lle cafodd achwynydd ei ddiweddaru'n llafar am yr ymdrin anffurfiol, dylai nodyn crynodeb byr ddogfennu'r sgwrs honno. |
| 7 | Dylai heddluoedd fodloni eu hunain fod ganddynt brosesau mewn grym i sicrhau bod achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr, neu unigolion â diddordeb mewn ymchwiliad ymddygiad, yn cael eu diweddaru'n llawn ar ganlyniad yr ymchwiliad i ymddygiad. Gellir cyfathrebu'r canlyniad trwy roi copi iddynt o adroddiad yr ymchwiliad ymddygiad, lle'n briodol, neu drwy ddulliau eraill a gytunir â'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr megis wyneb yn wyneb. Lle mae'r canlyniad yn cael ei gyfathrebu'n llafar, dylai cofnod o'r sgwrs gael ei wneud. |
| 8 | Dylai ymdrinwyr â chwynion sicrhau wrth gyfathrebu canlyniad neu fater ymddygiad yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, eu bod yn ystyried anghenion neu wendidau penodol yr achwynydd / dioddefwr-oroeswr. Dylent roi ystyriaeth i'r ffordd mae'r canlyniad yn cael ei gyfathrebu a pha gymorth sy'n ofynnol ar ôl ymdrin â'r mater trais yn erbyn menywod a merched. Dylai ymdrinwyr â chwynion geisio cyfeirio at gymorth perthnasol lle'n briodol. Mae hyn yn cysylltu ag argymhelliad tri lle dylai bregusrwydd a chymorth gael eu hystyried trwy gydol ymdrin â'r mater sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched. |
| 9 | Dylai'r holl heddluoedd ystyried pa gynlluniau a mecanweithiau sydd ganddynt mewn grym i hyrwyddo mynediad i system gwynion yr heddlu i grwpiau penodol trais yn erbyn menywod a merched. Dylai lluoedd ystyried pa bartneriaethau lleol y gallai eu heddlu gael budd ohonynt. Dylent edrych ar anghenion penodol dioddefwyr o'r heddlu i gyrchu'r system a pha ddarpariaethau sydd mewn grym yn fewnol i'w cynorthwyo. Dylid rhoi ystyriaeth i sut mae'r cynlluniau a mecanweithiau hyn i adrodd am drais yn erbyn menywod a merched yn cael eu hyrwyddo. |

## Camau nesaf

1. Bydd tîm Goruchwylio'r IOPC hefyd yn cynnal trafodaethau strwythuredig â lluoedd am yr argymhellion hyn fel rhan o'n rhaglen ymgyslltu llu rheolaidd. Byddwn yn monitro gweithredu'n hargymhellion a lluoedd cymorth i sefydlu cynlluniau sy'n gweithio i wella ymdrin â chwynion. Bydd unrhyw ddiweddariadau neu enghreifftiau o aferion da rydym yn gallu eu rhannu â lluoedd eraill yn cael eu rhannu yn ein newyddlen Goruchwylio misol.

2. Bydd SYAH yn gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) i wella ansawdd casglu data'r lluoedd o faterion trais yn erbyn menywod a merched. Bydd hyn yn caniatáu i heddluoedd a chyrff goruchwylio eraill ddeall y darlun mewn plismona fel y mae'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched ac yn ei dro, i fonitro ac olrhain gwelliannau neu feysydd pryder.

3. Mae SAYH wedi diweddaru ei ganllawiau Ffocws ar gipio data i gynnwys achosion achos trais yn erbyn menywod a merched ac enghreifftiau i gynorthwyo cymhwyso ffactorau cenedlaethol trais yn erbyn menywod a merched. Ochr yn ochr â chanllawiau NPCC, bydd hyn yn gwella casglu data a gwybodaeth am ymdrin â chwynion trais yn erbyn menywod a merched.

4. Bydd SAYH yn cynnal rhagor o waith i adolgu ymdriniaeth yr heddlu o achosion camdriniaeth yn y cartef a gyflawnir gan heddlu. Bydd y gwaith ychwanegol hwn yn ffurfio rhan o is-brosiect ar wahân a byddwn yn creu adroddiad ar wahân arno.

5. Cynhyrchodd SAYH ddogfen ganllawiau o'r enw **Rhoi terfyn ar feio dioddefwyr: trais yn erbyn menywod a merched**: **Pam mae iaith, agweddau, ac ymddygiadau yn bwysig.** Mae er mwyn i staff SAYH a phob heddlu ei ddefnyddio. Rydym yn anelu at ryddhau ein canllawiau yn allanol ym Mawrth 2024.

6. Ymgyrch 'Gwybod Eich Hawliau' - rydym yn datblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu a hawliau dioddefwyr wrth wneud cwyn. Bydd 'Gwybod Eich Hawliau' yn cael ei dargedu at ddiodefwyr-oroeswyr trais yn erbyn menywod a merched a'r sefydliadau sy'n eu cynorthwyo. Bydd ein hymgyrch yn cychwyn yng Ngwanwyn 2024.

Chwefror 2024

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)**

OGL Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Tel: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE